OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1741 (Cy.180)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud - -	*6 Gorffennaf 2004*
Yn dod i rym	
ac eithrio rheoliad 2(e)(ii) a (f) (ii)	*y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud*
rheoliad 2(e)(ii) a (f) (ii)	*1 Medi 2004*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3(4), 4(1), (2), (3) a (5), 14(3) a 42(6) a (7) o Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2004.

(2) Ac eithrio rheoliad 2(e)(ii) a (f) (ii) daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud.

(3) Daw rheoliad 2(e)(ii) a (f) (ii) i rym ar 1 Medi 2004.

Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000

2. Diwygir Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000(**3**) fel a ganlyn —

(a) yn rheoliad 2 —

(**1**) 1998 p.30. Mae adrannau 2 at 7 yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adran 9. Diwygir Adrannau 3(4) a 4 yn rhagolygol gan baragraffau 3(6) a 4(2) o Atodlen 12 a pharagraff 77 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32). I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 43(1).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2000/1979 (Cy.140) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/2496 (Cy.200).

(i) yn lle'r diffiniad o "athro neu athrawes gymwysedig" rhodder y diffiniad canlynol —

"mae i "athro neu athrawes gymwysedig" yr ystyr a roddir i "*qualified teacher*" yn adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002(**4**);";

(ii) mewnosoder ar ôl y diffiniad o "Cod Ymarfer" y diffiniad canlynol—

"mae i "corff priodol" ("*appropriate body*") yr ystyr a roddir iddo yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003(**5**);";

(iii) hepgorer y diffiniad o "Deddf 1988";.

(b) mewnosoder ar ôl rheoliad 3 —

"**Cymhwyster i gofrestru**

3A.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i berson sydd, ar ôl gwasanaethu cyfnod ymsefydlu yn unol â rheoliadau sydd wedi'u gwneud mewn perthynas â Chymru neu Loegr o dan adran 19 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**6**)), wedi methu â'i gwblhau yn foddhaol at ddibenion y rheoliadau hynny.

(2) Mae person o'r fath yn gymwys i gofrestru —

(a) yn ystod yr amser ar gyfer gwneud apêl o dan y rheoliadau hynny yn erbyn penderfyniad ei fod wedi methu â chwblhau cyfnod ymsefydlu yn foddhaol; a

(b) lle y gwneir apêl o'r fath, wrth ddisgwyl canlyniad yr apêl.";.

(c) yn lle rheoliad 4 rhodder y rheoliad canlynol —

"**4.** Caiff y Cyngor wneud darpariaeth ynghylch —

(i) y ffurf a'r dull ar gyfer gwneud ceisiadau am gofrestru; a

(ii) y dystiolaeth ddogfennol a thystiolaeth arall sydd i gyd-fynd â cheisiadau am gofrestru.";

(ch) yn rheoliad 16, yn lle paragraff (3) rhodder y paragraff canlynol—

"(3) Mae'r canlynol i'w trin fel cyflogydd neu ddarpar gyflogydd y mae paragraff (1) yn gymwys iddo —

(i) awdurdod addysg lleol os corff llywodraethu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw (p'un a yw'r corff llywodraethu wedi gwneud cais o dan baragraff (1) neu beidio) yw'r cyflogydd neu ddarpar gyflogydd

(ii) yr awdurdod esgobaethol priodol mewn perthynas ag ysgol yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol yr Eglwys Gatholig Rufeinig (o fewn ystyr adran 142 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**7**)) os corff llywodraethu'r ysgol neu'r awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol (p'un a yw'r corff llywodraethu neu'r awdurdod wedi gwneud cais o dan baragraff (1) neu beidio) yw'r cyflogydd neu'r darpar gyflogydd

(**4**) 2002 p.32. *Gweler* Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, O.S. 2004/1729 (Cy.173).
(**5**) O.S. 2003/543 (Cy. 77) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/872 (Cy.87).
(**6**) Y rheoliadau a oedd mewn grym adeg gwneud y rheoliadau hyn oedd, mewn perthynas â Chymru, Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003, O.S. 2003/543 (Cy.77), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/872 (Cy.87), ac mewn perthynas â Lloegr, Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cydgrynhoi) 2001, O.S. 2001/2897, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/3938, O.S. 2002/2063 ac O.S. 2003/106.
(**7**) 1998 p. 31.